

**Tasg 1**

## Stori wir

1. Torrwch y darnau allan.



Achos y tywydd poeth, doedd Fatima ddim wedi stopio injan y car – roedd hi eisiau i’r system awyru oeri’r cŵn.

Daeth Fatima allan o’r siop a gweld y car. Cafodd hi sioc.

Roedd Sadie a Peppi, dau gi bach, yn eistedd mewn car yn y maes parcio tu allan i siop Walmart yn Wayne, West Virginia, Gogledd America. Roedd Fatima Rowe, perchennog Sadie a Peppi wedi mynd i mewn i’r siop i siopa.

Haf 2016 ... dydd Gwener oedd hi, ac roedd hi’n boeth iawn.

Yna, gyrrodd Sadie, Peppi a Fatima adre o’r siop. Pwy oedd yn gyrru, tybed?

Stopiodd y car ar ôl taro i mewn i biler o flaen y siop. Rhedodd llawer o bobl at y car a gwelon nhw Peppi yn pwyso botwm i agor ffenest y car.

Pan oedd hi yn y siop, dechreuodd y car symud i lawr y bryn at y siop. Troiodd Sadie yr olwyn lywio a gyrrodd hi’r car!

2. Gosodwch y stori yn y drefn gywir ac yna darllenwch y stori’n uchel.

**Geirfa**

torri allan	(to) cut out	yn y drefn gywir	in the correct order
gosod	(to) place, arrange		